PWYLLGOR SAFONAU A MOESEG

DYDD LLUN, 1 GORFFENNAF 2019

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Richard Tebboth(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Cunnah, Sandrey, Williams, Hugh Thomas, Hollie Edwards-Davies a/ac Thomas |

33 : AELODAETH A CHYLCH GORCHWYL

Nododd y pwyllgor fod y Cynghorwyr canlynol wedi eu hail-benodi i'r Pwyllgor yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor ar 23 Mai 2019:

Y Cynghorwyr Stephen Cunnah, Emma Sandrey a Joel Williams

Cylch Gorchwyl

Cytunodd y Cyngor, yn ei gyfarfod blynyddol ar 23 Mai 2019, ar y cylch gorchwyl canlynol:

(a) Monitro a chraffu ar safonau moesegol yr Awdurdod, ei Aelodau, cyflogeion ac unrhyw ddarparwyr cysylltiedig o wasanaethau'r Awdurdod, ac adrodd i'r Cyngor ar unrhyw faterion o bryder.

(b) Cynghori'r Cyngor o ran cynnwys ei God Moesegol a diweddaru'r Cod fel sy'n briodol.

(c) Cynghori'r Cyngor ynghylch rhoi'r Cod ar waith yn effeithiol, gan gynnwys materion megis hyfforddi Aelodau a chyflogeion ynghylch gweithredu'r Cod

(d) Ystyried a phenderfynu'r canlyniad i gwynion bod Cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig wedi ymddwyn yn groes i'r Cod yn unol â gweithdrefnau a gytunwyd gan y Pwyllgor Safonau, gan gynnwys dyfarnu unrhyw gosbau sydd ar gael i'r Pwyllgor.

(e) Goruchwylio a monitro gweithdrefnau chwythu'r chwiban y Cyngor ac ystyried materion moesegol sy'n deillio o gwynion dan y weithdrefn a chwynion eraill.

(f) Cymeradwyo neu wrthod ceisiadau am ollyngiadau mewn perthynas â buddion Aelodau dan God Ymddygiad Aelodau yn unol â'r darpariaethau statudol perthnasol.

(g) Ymgymryd â'r swyddogaethau hynny mewn perthynas â chynghorau cymuned sydd wedi'u lleoli yn ardal y Cyngor ac aelodau'r cynghorau cymuned hynny yn ôl gofynion y gyfraith.

(h) Argymell unrhyw ganllawiau pellach ar faterion yn ymwneud â chywirdeb i'r Cyngor a'r Cabinet.

(i) Gwrando ar, a phenderfynu'r canlyniad i unrhyw gwynion o gamymddwyn gan Aelodau neu adroddiad y Swyddog Monitro, p'un a yw hynny ar gyfeiriad yr Ombwdsmon neu fel arall.

(j) Argymell darpariaeth o adnoddau i'r Swyddog Monitro yn ôl yr hyn sydd ei angen arno er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau.

Bydd angen i bob Aelod o'r Pwyllgor gyflawni hyfforddiant perthnasol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau'n gywir.

34 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim

35 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

36 : NODIADAU

Nododd y Pwyllgor nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2019.

37 : SWYDD AELOD ANNIBYNNOL WAG

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad yn rhoi gwybodaeth am y swydd annibynnol wag ar y Pwyllgor a chymeradwyodd y trefniadau i lenwi'r swydd honno.

Eglurodd yr aelod annibynnol Hugh Thomas ei fod ef hefyd yn dymuno ymddiswyddo o'r Pwyllgor am resymau personol.

Cyfeiriodd y Pwyllgor at Fanyleb Person y swydd a'r newidiadau a wnaed.

Awgrymodd y Pwyllgor rai newidiadau i'r fanyleb person a dirprwyodd y gwaith o gwblhau'r geiriad terfynol i'r Swyddog Monitro mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd.

Bu'r Pwyllgor yn trafod hysbysebu'r swydd gyda'r posibilrwydd iddo gael ei hysbysebu ar wefannau cynghorau cymuned.

Trafodwyd hyfforddiant a datblygiad yn unol â'r hyn a ddarparwyd ar gyfer cynghorwyr newydd.

Gofynnodd y Pwyllgor i'r Swyddog Monitro, Davina Fiore, ddiwygio rhannau penodol o'r fanyleb person mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd.

Penderfynodd y Pwyllgor ar y canlynol:

(i) Nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.
(ii) Sefydlu Panel Penodi yn cynnwys hyd at 5 aelod fel y nodir ym mharagraff 9 yr adroddiad, gydag awdurdod dirprwyedig i lunio rhestr fer a chyfweld ymgeiswyr a gwneud argymhellion wrth gael eu penodi i'r Cyngor llawn.

(iii) Cymeradwyo'r hysbyseb a'r fanyleb person ar gyfer y swydd Aelod Annibynnol wag, fel y nodir yn Atodiadau A a B yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau y cytunwyd arnynt;
(iv) Awdurdodi'r Swyddog Monitro, drwy ymgynghori â'r Cadeirydd, i wneud yr holl drefniadau gweinyddol angenrheidiol a
(v) Nodi y bydd argymhellion y Panel Penodi ar benodi aelod annibynnol i'r Pwyllgor yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor llawn i'w cymeradwyo.

38 : YMDDYGIAD AELODAU - GWEITHDREFNAU A PHANEL GWRANDAWIAD

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad i gymeradwyo trefniadau i glywed a phenderfynu ar unrhyw atgyfeiriadau gan yr Ombwdsmon mewn perthynas â chwyn ynghylch camymddwyn gan Aelod.

Dywedodd y Pwyllgor iddo, ym mis Mai 2014, ystyried cwyn am gamymddygiad gan yr Ombwdsmon, ac iddo benderfynu penodi is-bwyllgor, 'Panel Gwrandawiad' (yn cynnwys tri aelod annibynnol o'r Pwyllgor) i benderfynu ar y gŵyn honno a gosod unrhyw gosbau priodol. Cyfarwyddwyd y Swyddog Monitro, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Panel i ymgynnull a chymryd yr holl gamau angenrheidiol cyn y gwrandawiad.

Ym mis Mai 2014, ystyriodd y Cyngor hefyd ei drefniadau ar gyfer gwrandawiadau dan y Protocol Datrysiadau Lleol. Sefydlodd y Pwyllgor is-bwyllgor, roedd y 'Panel Gwrandawiad' oedd ei angen dan y Protocol Datrysiadau Lleol yn cynnwys tri o bum aelod annibynnol y Pwyllgor; a rhoddodd awdurdod i'r Swyddog Monitro (mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd) i gymryd yr holl gamau angenrheidiol i drefnu cyfarfod y Panel Gwrandawiad, yn ôl yr angen.

Roedd y Pwyllgor wedi mabwysiadu gweithdrefnau ar wahân i'r Panel Gwrandawiadau benderfynu arnynt:

(i) Cwynion a gyfeiriwyd gan yr Ombwdsmon, diwygiwyd y weithdrefn hon ddiwethaf ym mis Mawrth 2012, a
(ii) Chwynion dan y Protocol Datrysiadau Lleol, diwygiwyd hyn ddiwethaf ym mis Mawrth 2016.

Trafododd y Pwyllgor gwneuthuriad y Panel a chynnwys aelodau etholedig.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai is-bwyllgor y Panel Gwrandawiadau yn cynnwys tri Aelod Pwyllgor i gynnwys o leiaf dau aelod annibynnol.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai'r cyfarfod cyntaf yn ystyried yr wybodaeth a roddwyd i weld a oedd achos i'w ateb, os felly byddai'n symud ymlaen at wrandawiad llawn.

Penderfynodd y Pwyllgor:

1. Gymeradwyo sefydlu is-bwyllgor, 'Panel Gwrandawiadau', yn cynnwys tri aelod o'r Pwyllgor, i gynnwys o leiaf dau aelod annibynnol (ac ar gyfer cwynion

yn erbyn cynghorydd cymunedol i gynnwys aelod pwyllgor cymunedol yn unol ag Erthygl 9.3 y Cyfansoddiad) i ddelio gyda chyfeiriadau gan yr Ombwdsmon;

2. Dirprwyo awdurdod i'r Panel Gwrandawiad a sefydlwyd dan argymhelliad 1, i arfer holl swyddogaethau'r Pwyllgor mewn perthynas ag unrhyw wrandawiadau camymddygiad y gallai'r Ombwdsmon eu cyfeirio i'r Pwyllgor o bryd i'w gilydd;

3. Dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd i ymgynnull Panel Gwrandawiadau, yn ôl yr angen, a gwneud yr holl drefniadau gweinyddol cysylltiedig; ac

4. Awdurdodi'r Swyddog Monitro i ddiwygio Gweithdrefn y Panel Gwrandawiadau fel y dangosir yn Atodiad A, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau pellach a gytunwyd gan y Pwyllgor.

39 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim

40 : DYDD MERCHER 2 HYDREF 2019 AM 5.00PM FYDD DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.30 pm